Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# Adroddiad ar y Memoranda Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth

Mawrth 2025

## 1. Cefndir

**1.** Mae'r adroddiad hwn yn ystyried Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol[1] (y Memorandwm) a Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol[2] (y Memorandwm Atodol) Llywodraeth Cymru ar y Bil Hawliau Cyflogaeth.[3]

**2.** Cyflwynwyd y Bil Hawliau Cyflogaeth ("y Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Hydref 2024 a chafodd ei Ail Ddarlleniad ar 21 Hydref 2024. Mae bellach wedi mynd drwy'r Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin a dechreuodd y cyfnod adrodd ar 11 Mawrth 2025.

**3.** Mae enw hir y Bil yn nodi ei ddiben fel a ganlyn:

> *"make provision to amend the law relating to employment rights; to make provision about procedure for handling redundancies; to make provision about the treatment of workers involved in the supply of services under certain public contracts; to provide for duties to be imposed on employers in relation to equality; to provide for the establishment of the School Support Staff Negotiating Body and the Adult Social Care Negotiating Body; to make provision about trade unions,*

[1] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, y Bil Hawliau Cyflogaeth, 5 Rhagfyr 2024
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol (Rhif 2), y Bil Hawliau Cyflogaeth, 19 Rhagfyr 2024
[3] Senedd y DU, y Bil Hawliau Cyflogaeth (Saesneg yn unig)

> *industrial action, employers' associations and the functions of the Certification Officer; to make provision about the enforcement of legislation relating to the labour market; and for connected purposes".*

Gosododd Jack Sargeant AS, y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol (y Gweinidog), y Memorandwm a'r Memorandwm Atodol mewn cysylltiad â'r Bil ar 5 Rhagfyr a 19 Rhagfyr 2024, yn y drefn honno.

**4.** Cyfeiriodd y Pwyllgor Busnes y ddau at y Pwyllgor hwn, Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, a'r dyddiad cau diwygiedig ar gyfer cyflwyno adroddiad yw 28 Mawrth 2025.

**5.** Mae pob cyfeiriad at rifau cymalau yn yr adroddiad hwn yn gyfeiriadau at rifau cymalau'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

# 2. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

**6.** Mae paragraffau 4 i 10 o'r Memorandwm yn rhoi crynodeb o'r Bil ac yn amlinellu ei amcanion polisi. Mae paragraffau 11 a 12 o'r Memorandwm yn nodi asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer. Mae'r darpariaethau hyn yn ymwneud â gwarchod gweithwyr sy'n trosglwyddo mewn contractau allanoli; cynlluniau gweithredu cydraddoldeb; a deddfwriaeth sy'n ymwneud â'r undebau llafur.

# 3. Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol

**7.** Mae'r Memorandwm Atodol yn canolbwyntio ar gymal 25 o'r Bil, fel y'i cyflwynwyd. Mae cymal 25 yn diwygio Deddf Caffael 2023 mewn perthynas â gwarchod gweithwyr sy'n trosglwyddo mewn contractau allanoli. Mae'r Memorandwm a'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn datgan mai diben y cymal hwn yw creu pŵer i un o Weinidogion y Goron wneud rheoliadau a gosod dyletswydd i gyhoeddi cod ymarfer statudol. Bwriedir i'r pwerau hyn gael eu defnyddio i nodi mesurau i osgoi sefyllfaoedd pan fo gweithlu yn cynnwys cyn-weithwyr y sector cyhoeddus a gweithwyr y sector preifat, gyda phob grŵp ar delerau ac amodau gwahanol, a elwir yn gyffredin yn "weithlu dwy haen". Mae'r Bil yn eithrio awdurdodau Cymreig datganoledig o gwmpas yr adran newydd (ac eithrio pan

fyddant yn cymryd rhan mewn trefniadau caffael a gedwir yn ôl ac unrhyw "drefniant caffael Cymreig datganoledig").

**8.** Mae'r Memorandwm Atodol yn nodi bod y Gweinidog wedi ysgrifennu at yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol dros Hawliau Cyflogaeth, Cystadleuaeth a Marchnadoedd ar 29 Hydref 2024. Er ei bod yn croesawu cynnwys cymal 25 o'r Bil Hawliau Cyflogaeth, nododd Llywodraeth Cymru anghysondebau posibl â'r "Cod Dwy Haen" yng Nghymru a Deddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023. At hynny, gofynnodd am welliant i gymal 25 o'r Bil i roi'r un pwerau i Weinidogion Cymru ag sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol i wneud darpariaeth mewn rheoliadau, a chyhoeddi cod ymarfer a fydd yn gymwys i'r sefydliadau hynny a ddiffinnir fel awdurdodau Cymreig datganoledig yn Neddf Caffael 2023 ond nad ydynt wedi'u rhestru yn Atodlen 1 i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

**9.** Ymatebodd yr Is-ysgrifennydd Gwladol Seneddol ar 29 Tachwedd i gadarnhau y byddai Llywodraeth y DU yn ceisio cyflwyno gwelliant i'r Bil fel y gofynnwyd amdano yn ystod cyfnod Pwyllgor Tŷ'r Cyffredin. O ganlyniad, mae cymal 25 o'r Bil bellach wedi'i ddiwygio.

# 4. Y darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

**10.** Mae Atodiad A i'r Nodiadau Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi bod Llywodraeth y DU o'r farn mai dim ond ar gyfer cymal 25 o'r Bil y mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd. Mae'r Memorandwm a'r Memorandwm Atodol yn mynd i'r afael â'r cymal hwn.

**11.** Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r asesiad hwn, ond yn y Memorandwm mae'n nodi ei bod hefyd o'r farn bod angen cydsyniad ar gyfer cymalau 26, 49, 52, 54, 61 ac 71. Mae'r Memorandwm yn nodi mai barn Llywodraeth y DU yw nad oes angen cydsyniad y Senedd ar gyfer y cymalau hyn.

<u>Cymal 25</u>

**12.** Mae cymal 25 yn diwygio Deddf Caffael 2023 mewn perthynas â gwarchod gweithwyr sy'n trosglwyddo mewn contractau allanoli. Cyflwynwyd gwelliannau i'r cymal hwn i fynd i'r afael â'r anghysondeb a godwyd gan Lywodraeth Cymru, fel y cyfeirir ato ym mharagraff 7 uchod. Mae'r Memorandwm Atodol yn datgan mai effaith y gwelliannau hyn fydd ailstrwythuro'r darpariaethau newydd sydd

i'w mewnosod yn Neddf Caffael 2023 fel y byddai'r pwerau a freiniwyd yn flaenorol yn yr Ysgrifennydd Gwladol yn unig yn awr hefyd yn cael eu rhoi i Weinidogion Cymru mewn cysylltiad ag awdurdodau Cymreig datganoledig. Mae'r gwelliannau hefyd yn egluro nad yw'r ddyletswydd i gyhoeddi cod ymarfer yn dibynnu ar wneud y rheoliadau.

**13.** Mae'r Memorandwm Atodol yn mynd ymlaen i ddatgan mai effaith ymarferol y gwelliannau o ran Cymru yw rhoi pwerau i Weinidogion Cymru i wneud darpariaethau mewn rheoliadau i sicrhau bod gweithwyr sy'n cael eu trosglwyddo i gontractwr a gweithwyr sydd eisoes yn gweithio i'r contractwr hwnnw yn cael eu trin yn gyfartal, ac i gyhoeddi cod ymarfer ar faterion cysylltiedig. Bydd y darpariaethau newydd hyn yn gymwys i'r sefydliadau hynny a ddiffinnir fel awdurdodau Cymreig datganoledig yn Neddf Caffael 2023 ond nad ydynt wedi'u rhestru yn Atodlen 1 i Ddeddf Partneriaeth Gymdeithasol a Chaffael Cyhoeddus (Cymru) 2023.

<u>Cymal 26</u>

**14.** Mae cymal 26 yn mewnosod adran newydd 78A yn Neddf Cydraddoldeb 2010, sy'n galluogi gwneud rheoliadau sy'n ei gwneud yn ofynnol i gyflogwyr a chyrff cyhoeddus penodol lunio a chyhoeddi "cynllun gweithredu cydraddoldeb" sy'n ymdrin â materion yn ymwneud â chydraddoldeb rhywedd. Mae'r rhan fwyaf o'r cyrff cyhoeddus datganoledig yng Nghymru wedi'u heithrio, ond mae Comisiwn y Senedd (o dan ei enw blaenorol, Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru) yn dod o dan y ddarpariaeth hon.

**15.** Mae cymal 26 hefyd yn caniatáu i reoliadau a wneir oddi tano fod yn gymwys i Asiantaeth yr Amgylchedd, Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG, Awdurdod Gwasanaethau Busnes y GIG a'r Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr Cyfyngedig. Er nad yw'r cyrff hyn yn awdurdodau Cymreig datganoledig, mae cymal 26 yn datgan bod rhaid i un o Weinidogion y Goron ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau sy'n gymwys i'r cyrff hyn o dan y ddarpariaeth hon. Nid oes gofyniad tebyg i ymgynghori â Gweinidogion Cymru wrth wneud rheoliadau sy'n gymwys i Gomisiwn y Senedd.

<u>Cymalau 49, 52, 54, 61 ac 71</u>

**16.** Roedd y Pwyllgor o'r farn y byddai Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig mewn sefyllfa well i ystyried cymalau 49, 52, 54, 61 ac 71 o fewn ei gylch gwaith ef ac felly canolbwyntiodd ar gymalau 25 a 26.

# 5. Ymgysylltu gan Bwyllgorau'r Senedd

**17.** Ysgrifennodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Lywodraeth Cymru ar 31 Ionawr 2025 yn gofyn am ragor o wybodaeth ac eglurhad mewn perthynas â chymalau 26, 49, 52, 54 ac 71. [4]

**18.** Eglurodd Llywodraeth Cymru yn ei hymateb ar 7 Chwefror fod cynnwys Comisiwn y Senedd yng nghwmpas cymal 26 yn deillio o'i restru yn Rhan 1 o Atodlen 19 i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (o dan y pennawd "Cyrff Seneddol a Datganoledig").[5]

**19.** Eglurodd hefyd fod cymalau 49, 52 a 54 yn rhoi sylw i faterion datganoledig yn unol â Rheol Sefydlog 29.

**20.** Ysgrifennodd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Gomisiwn y Senedd ar 31 Ionawr ynghylch cymal 26.[6]

**21.** Cadarnhaodd Comisiwn y Senedd yn ei ymateb ar 13 Chwefror nad ymgynghorwyd ag ef ac na chafodd unrhyw ymgysylltiad â Llywodraeth y DU mewn perthynas â'r ddarpariaeth hon ac felly yr hoffai weld y Bil yn cael ei ddiwygio fel bod y Comisiwn yn cael ei gynnwys fel ymgynghorai statudol er mwyn rhoi'r cyfle iddo i wneud sylwadau ar unrhyw gynigion ar gyfer unrhyw reoliadau dilynol.[7]

**22.** Ysgrifennodd Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch pryder bod Comisiwn y Senedd o fewn cwmpas y Bil. Mae'n nodi, er bod Cymal 26 yn datgan bod rhaid i un o Weinidogion y Goron ymgynghori â Gweinidogion Cymru cyn gwneud rheoliadau sy'n gymwys i gyrff cyhoeddus penodol nad ydynt wedi'u

---

[4] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, PTN 4.3 Gohebiaeth oddi wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol ynghylch y memoranda cydsyniad deddfwriaethol ar y Bil Hawliau Cyflogaeth
[5] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, PTN 4.4 Gohebiaeth oddi wrth y Gweinidog Diwylliant, Sgiliau a Phartneriaeth Gymdeithasol at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad ynghylch y Bil Hawliau Cyflogaeth
[6] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, PTN 4.3 Gohebiaeth oddi wrth y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Gomisiwn y Senedd
[7] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, PTN 4.3 Gohebiaeth oddi wrth y Llywydd at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

datganoli ac sy'n gweithredu yng Nghymru, nad oes gofyniad o'r fath wrth wneud rheoliadau sy'n gymwys i Gomisiwn y Senedd.[8]

# 6. Ein barn ni

### A oes angen cydsyniad deddfwriaethol?

Rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU bod **angen cydsyniad** ar gyfer cymal 25.

At hynny, rydym yn cytuno â Llywodraeth Cymru bod **angen cydsyniad** mewn cysylltiad â chymal 26.

Ni wnaethom ystyried cymalau 49, 52, 54, 61 ac 71 yn ddigon manwl i ddod i gasgliad, ac roeddem o'r farn y byddai Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig mewn sefyllfa well i wneud sylwadau ar y rhain o fewn ei gylch gwaith ef.

### A ddylai'r Senedd roi cydsyniad deddfwriaethol?

**Cymal 25**

Mae'r Pwyllgor yn nodi'r gwelliannau a wnaed i gymal 25 o'r Bil i roi'r un pwerau i Weinidogion Cymru ag sydd gan yr Ysgrifennydd Gwladol fel y gofynnodd Llywodraeth Cymru amdanynt. Felly, nid oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i roi cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymal hwn.

**Casgliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn fodlon â'r gwelliannau a wnaed i gymal 25 o'r Bil ac nid oes ganddo unrhyw wrthwynebiad i roi cydsyniad deddfwriaethol mewn perthynas â'r cymal hwn.

**Cymal 26**

[8] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, PTN 4.5 Gohebiaeth oddi wrth Bwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Mae'r Pwyllgor yn nodi barn Comisiwn y Senedd fel y'i hamlinellir mewn gohebiaeth ac mae'n credu y dylid egluro'r materion hyn cyn y gellir dod i farn ynghylch a ddylid rhoi cydsyniad. [9]

**Argymhelliad 1.** Mae'r Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn gofyn i Lywodraeth y DU am eglurder mewn perthynas â chymal 26 a'r pwyntiau a godwyd gan y Llywydd ar ran Comisiwn y Senedd ac yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y canlyniad cyn gofyn i'r Senedd ystyried y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Cyfarfod Llawn.

[9] Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, PTN 4.3 Gohebiaeth oddi wrth y Llywydd at y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad